# Rhyddhad Ardrethi a Ariennir gan Lywodraeth Cymru

**Rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2017 bydd y rhyddhad ardrethi ar gyfer busnesau bach yng Nghymru yn cael ei ymestyn.**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

Bydd safleoedd busnes sydd â gwerth ardrethol hyd at £6,000 yn cael rhyddhad o 100%, a bydd y rheini sydd â gwerth ardrethol rhwng £6,001 a £12,000 yn cael rhyddhad ar raddfa a fydd yn gostwng o 100% i sero.

| Brasamcan o rai o'r gwahanol gyfraddau o ryddhad | | | |
|---|---|---|---|
| Gwerth Ardrethol (£) | % Rhyddhad | Gwerth Ardrethol (£) | % Rhyddhad |
| 0 - 6,000 | 100 | 9,000 | 50 |
| 7,000 | 83.4 | 10,000 | 33.3 |
| 8,000 | 66.6 | 11,000 | 16.6 |

Bydd busnesau sy'n derbyn rhyddhad ar gyfradd uwch ar hyn o bryd yn cael y gyfradd ryddhad sydd fwyaf manteisiol iddynt.

**Os oes gan dalwr ardrethi unrhyw ymholiadau am ryddhad ardrethi neu daliadau yn y dyfodol, dylid cyfeirio'r rhain at yr awdurdod lleol.**

***Nodiadau:***

1. *Rhaid i bob safle busnes fod wedi'i feddiannu'n llwyr er mwyn bod yn gymwys i gael rhyddhad ardrethi.*
2. *Ymhlith y safleoedd nad ydynt yn gymwys i gael rhyddhad ardrethi y mae'r rhai sydd wedi'u meddiannu gan gyngor, awdurdod heddlu neu'r Goron; y rhai sydd wedi'u meddiannu gan elusennau, clybiau cofrestredig, neu gyrff dielw y mae eu prif amcanion yn ddyngarol, yn grefyddol neu'n ymwneud ag addysg, lles cymdeithasol, gwyddoniaeth, llenyddiaeth neu'r celfyddydau cain; cabanau glan môr; safleoedd sy'n cael eu defnyddio'n unig ar gyfer arddangos hysbysebion, parcio cerbydau modur, gwaith trin carthion neu gyfarpar cyfathrebu electronig.*
3. *Bydd yr isod yn parhau i gael rhyddhad fel a ganlyn:*
   *Bydd safleoedd sydd â gwerth ardrethol rhwng £10,501 a £11,000 yn derbyn rhyddhad manwerthu o 25% – bydd pob safle arall yn cael rhyddhad ar y gyfradd sydd fwyaf manteisiol iddynt. Bydd Swyddfeydd Post yn cael rhyddhad ardrethi o 100% neu 50%. Bydd Safleoedd Gofal Plant cofrestredig a chanddynt werth ardrethol o £9,001 – £12,000 yn cael rhyddhad o 50%.*

OGL © Hawlfraint y Goron 2016 WG27762